

KEY ASKS FOR SENEDD ELECTION 2021

**Actuate UK - the engineering services alliance
- is the umbrella body for UK engineering
services.**

It brings together the leading trade, technology and professional bodies within the multi-billion-pound sector: BESA, BSRIA, CIBSE, ECA, FETA, LEIA, SELECT and SNIPEF.

We speak with a single, shared and authoritative voice to affect positive change in the built environment.



Actuate UK Wales supports and aligns with key asks in the manifesto of the Wales Construction Federation Alliance [WCFA] and its vision for ‘a strong, resilient and growing Welsh construction industry that is able to contribute towards Wales’ future needs in terms of infrastructure and homes, economic growth and reducing emissions’.

We believe that they are significant challenges for the construction sector in Wales and these need to be addressed by any incoming Welsh Government if we are to “build a better Wales”.

CHALLENGES currently faced:

- There is no clear vision of the future for the construction sector in Wales. It is said to be one of the priority sectors for Welsh Government but there is limited evidence to demonstrate this.
- Much more needs to be done to **improve the prospects for the SME’s** that deliver the bulk of Welsh construction and represent a cornerstone of our foundational economy.
- We are still seeing frequent examples of **poorly joined up policy making within Welsh Government** e.g. the offsite manufacturing (OSM) strategy which is also proposing changes to qualifications and decarbonisation policies which appear confusing across different sectors of industry. Engagement between Welsh Government and the construction sector has recently been improved through the Welsh Ministerial Construction Forum, but this needs to demonstrate that it can deliver improvement “on the ground”.
- **Workflow and cashflow** remain the lifeblood of businesses in this sector. However, visibility and certainty of future workflow remains patchy across the public sector. This has been compounded by a series of high profile infrastructure project cancellations across Wales which further creates uncertainty for businesses and makes them less likely to innovate and invest in longer term improvements and/or employment.
- In the short term, the **Wales Infrastructure Investment Plan (WIIP)** is little more than a wish list without certainty of funding or realistic timelines and, in terms of longer term direction and planning, the National Infrastructure Commission for Wales (NICfW) has made little progress to date.
- The **Covid-19** crisis has had a major impact on the construction sector in Wales. It has also brought some of its frailties into sharp focus, particularly amongst micro and small businesses and in apprenticeships. Covid recovery will be the key issue for the sector in the coming 12-18 months. The sector is likely to experience a significant increase in insolvencies in 2021 as small firms struggle to maintain their cashflow.
- The new Trade Deal with the EU will also have an impact on the sector in Wales. We need to see any incoming Welsh Government continue to work with the UK Government on migration issues in the labour market and availability and costs of materials and machinery.
- Recent reviews and announcements have provided solid ambitions but do not provide the **certainty or visibility** needed by industry in some policy areas e.g. the affordable housing and retrofit reviews. In other policy areas e.g. procurement, payment and community benefits, good policies are in place, but they are not being monitored or enforced by Welsh Government and consequently are not delivering the full extent of benefits anticipated.

- Some parts of the public sector still over emphasise **lowest price rather than highest value** in their procurement processes when they are creating tenders and assessing bids. Procurement can also be unwieldy and bureaucratic. Both these issues impact SME's. Efforts at achieving greater collaboration between smaller firms involved in delivering construction have not gained traction within the public sector despite policy initiatives.
- There are **skills gaps** in traditional trades, management roles and future skills but the curriculum (and education funding) remains focused on academic attainment, often at the expense of vocational education. There are too many qualifications but a lack of progression routes e.g. to higher / degree apprenticeships. Learners are far too often unaware of the roles and opportunities that are available in construction. The positioning and marketing of the industry as a rewarding career is not appropriately reflected within the education sector. This is particularly evident amongst under-represented groups and high achievers.
- **Planning and permitting system remain onerous** and under resourced with little progress being made on Strategic Development Plans aligning with the City Deals and Growth Deals. This is affecting longer term investment decisions despite the principle of a "plan led" system being widely supported. SME's in particular are put off by the complexities and cost associated with the planning process.
- Mineral operators continue to be anxious about achieving the necessary planning permissions to support Welsh Government's plans and face the same problems and delays caused by an under-funded planning and permitting system. Government ministers and planners, must recognise **the importance of minerals**. Far too often major infrastructure projects are promoted without any thought of the availability and location of minerals which influences vehicle movements and carbon impacts. Material supplies should not be assumed – they need to be planned if cost effective and sustainable delivery solutions are to be achieved.
- **Poor payment practices** are still common in the construction industry and these continue to have a major impact on the industry's ability to invest, to grow and to deliver greater value. These poor practices disproportionately affect SMEs. An extreme example of the implications of poor payment practices came with the collapse of Welsh registered Dawnus in 2019 left £40million owing to SME's. Given the current pandemic this is proving that cashflow for SME's should be a priority for any new government.
- And finally, the sector is yet to receive clarity on specific measures around **decarbonising future buildings and infrastructure** although recent announcements on incentives around retrofitting existing buildings show what can be achieved. This direction needs to be more widely applied across the sector to give confidence for businesses to invest.

Actuate UK key asks of any future Welsh Government are based on the WCFA's 6-priorities:

Priority	Portfolio	Key Asks
Pipeline	Economy	<ul style="list-style-type: none"> • Set a clear 10-year vision for construction in Wales including targets (like CLC / CFS) • Reform and clarify the NICfW • Improve communications within WG so that messages are clear and coherent • Embed, improve and better resource the newly formed Construction Forum • Increase investment in public sector infrastructure. • Incorporate the investment plans of all public sector bodies into an improved WIIP to offer a 3-5 year programme of work, funding proposals & certainty
Skills	Economy / Education	<ul style="list-style-type: none"> • Ensure the curriculum / careers advice signpost vocational education & construction careers • Increase funding for construction vocational education. • Assess then address drop-out rates from construction FE courses to construction jobs • Support the broadening of work experience as part of full time FE courses. • Ensure implementation of the new construction qualifications is a success. • Increase the range of pathways for learners in Wales, including higher and degree apprenticeships • Develop a clear approach to shared apprenticeships. • Support existing apprentices to complete their training & minimise falling apprentice numbers post-COVID
Procurement	Finance	<ul style="list-style-type: none"> • Focus on value not cost across public sector investment • Incorporate carbon impacts • Create statutory guidance on community benefits & ensure they're delivered e.g. enforcement/ retaining funds
Payment	Finance	<ul style="list-style-type: none"> • Ensure fair payment across supply chains & report performance on public sector contracts. • Ensure retention monies are held in an independently operated deposit scheme. • Monitor the application / impact of Project Bank Accounts on construction contracts.

Planning	Housing	<ul style="list-style-type: none"> • Ensure planning departments are properly resourced. • Ensure Strategic Development Plans (SDP's) and Local Development Plans (LDP's) are put in place as quickly as possible to allow an up to date plan led system to operate in Wales. • Ensure that the planning system supports, manages, and encourages appropriate development across Wales in a timely manner without impeding investment. • Review the planning system to ensure it encourages and is proportionate to SMEs developers.
Decarbonise (Net Zero)	Environment / Housing	<ul style="list-style-type: none"> • Increase investment in decarbonising existing infrastructure and housing. • Bring in measures targeting behaviour change of property owners to retrofit their homes/buildings • Support the sector in decarbonising construction operations using CITB Net Zero research. • Communicate clear plans for the implementation of new building regulations. • Introduce whole life costing criteria, including embedded carbon, into the justification of all investment

We believe that by supporting these key asks the Welsh construction industry will be better able to contribute towards Wales' future needs by:

- delivering better infrastructure and homes of all tenures,
- supporting economic growth through jobs and supply chains
- delivering greater social value
- reducing emissions to support the move towards zero carbon
- reducing fuel poverty
- supporting the foundational economy
- supporting circular economies
- delivering greater value for money and reducing impacts on public expenditure

GOFYNION AR GYFER ETHOLIAD SENEDD 2021

Actuate UK- y gynghrair gwasanaethau peirianeg – yw'r corff ymbarél ar gyfer gwasanaethau peirianeg y DU.

Mae'n dwyn ynghyd y cyrff masnach, technoleg a phroffesiynol blaenllaw yn y sector gwerth biliynau o bunnoedd: BESA, BSRIA, CIBSE, ECA, FETA, LEIA, SELECT a SNIPEF.

Rydym yn siarad ag un llais awdurdodedig a rennir i effeithio ar newid cadarnhaol yn yr amgylchedd adeiledig.



Mae Actuate UK Cymru yn cefnogi ac yn cyd-fynd â gofyniadau allweddol ym maniffesto Cynghrair Ffederasiwn Adeiladu Cymru [WCFA] a'i weledigaeth ar gyfer 'diwydiant adeiladu Cymru cryf, gwydn a chynyddol sy'n gallu cyfrannu at anghenion Cymru yn y dyfodol o ran seilwaith a cartrefi, twf economaidd a lleihau allyriadau '.

Credwn eu bod yn heriau sylweddol i'r sector adeiladu yng Nghymru ac mae angen i unrhyw Lywodraeth Gymru sy'n mynd i'r afael â'r rhain os ydym am “adeiladu Cymru gwell”.

Heriau cyfredol:

- Nid oes gweledigaeth glir ar gyfer dyfodol y diwydiant adeiladu yng Nghymru. Dywedir ei fod yn un o'r diwydiannau sy'n cael blaenoriaeth gan Lywodraeth Cymru, ond nid oes llawer o dystiolaeth i ddangos hyn.
- Mae angen gwneud llawer mwy i wella gobeithion busnesau bach a chanolig sy'n gwneud y rhan fwyaf o waith adeiladu yng Nghymru ac sy'n bwysig iawn i'n heconomi sylfaenol.
- Rydym yn dal i weld enghreifftiau o gydgyssylltu gwaith llunio polisi'n wael yn Llywodraeth Cymru, a hynny'n aml, e.e. y strategaeth gweithgynhyrchu oddi ar y safle, sydd hefyd yn cynnig newidiadau dryslyd i gymwysterau a pholisïau datgarboneiddio ar draws gwahanol sectorau'r diwydiant. Yn ddiweddar, mae Llywodraeth Cymru a'r diwydiant adeiladu wedi ymgysylltu â'i gilydd yn well drwy Fforwm Adeiladu Cymru, ond mae angen i'r Fforwm hwn ddangos y gall sicrhau gwelliant ar lawr gwlad.
- Mae llif gwaith a llif arian yn dal i fod yn hollbwysig i fusnesau yn y diwydiant hwn. Fodd bynnag, mae amlygrwydd a sicrwydd llif gwaith yn y dyfodol yn dal i fod yn anghyson drwy'r sector cyhoeddus. Mae hyn wedi'i waethygu gan y ffaith bod cyfres o brosiectau seilwaith proffil uchel wedi'u canslo ledled Cymru, sy'n creu rhagor o ansicrwydd i fusnesau ac sy'n golygu bod busnesau'n llai tebygol o arloesi a buddsoddi mewn gwelliannau tymor hwy a/neu swyddi.
- Yn y tymor byr, nid yw'r Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru'n fawr mwy na rhestr ddymuniadau heb sicrwydd cyllid neu amserlenni realistig ac, yn nhermau cyfeiriad a chynllunio yn y tymor hwy, nid yw Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru wedi gwneud fawr o gynnydd hyd heddiw.
- Mae pandemig COVID-19 wedi cael effaith fawr ar y diwydiant adeiladu yng Nghymru. Mae hefyd wedi dangos rhai o'i wendidau'n glir, yn enwedig ymhlith microfusnesau, busnesau bach a phrentisiaid. Y brif broblem i'r diwydiant dros y 12 i 18 mis nesaf fydd dod dros y pandemig. Mae'r diwydiant yn debygol o weld cynnydd sylweddol yn nifer yr achosion o ansolfedd yn 2021 wrth i fusnesau bach gael problemau o ran llif arian.
- Bydd y Fargen Fasnach newydd gyda'r UE hefyd yn cael effaith ar y sector yng Nghymru. Mae angen i unrhyw lywodraeth newydd barhau i weithio gyda Llywodraeth y DU ar faterion sy'n ymwneud â mudo yn y farchnad lafur ac argaeledd a chostau deunyddiau a pheiriannau.
- Mae adolygiadau a chyhoeddiadau diweddar wedi cyflwyno uchelgeisiau cadarn, ond nid ydynt yn cynnig y sicrwydd na'r amlygrwydd sydd eu hangen ar y diwydiant mewn rhai meysydd polisi, e.e. yr adolygiadau o dai fforddiadwy a gwaith ôl-osod. Mewn meysydd polisi eraill, e.e.

caffael, taliad a budd i'r gymuned, mae polisïau da yn eu lle, ond nid ydynt yn cael eu monitro na'u gorfodi gan Lywodraeth Cymru ac, o ganlyniad, nid ydynt yn sicrhau'r holl fuddion a ragwelwyd.

- Mae polisïau caffael rhai rhannau o'r sector cyhoeddus yn dal i roi gormod o bwyslais ar y pris isaf yn hytrach na'r gwerth mwyaf wrth dendro ac asesu cynigion. Gall prosesau caffael fod yn lletchwith ac yn fiwrocraataidd hefyd. Mae'r ddau fater hyn yn cael effaith ar fusnesau bach a chanolig. Nid yw ymdrechion i sicrhau bod busnesau llai'n cydweithredu'n well wedi gwneud llawer o wahaniaeth yn y sector cyhoeddus, er gwaethaf mentrau polisi.
- Mae bylchau i'w cael yn y sgiliau sydd eu hangen yn y dyfodol ac ar gyfer crefftau traddodiadol a swyddi rheoli, ond mae'r cwricwlwm (a chyllid ar gyfer addysg) yn dal i ganolbwyntio ar gyrhaeddiad academiaidd, a hynny'n aml ar draul addysg alwedigaethol. Mae gormod o gymwysterau ar gael, ond nid oes digon o lwybrau datblygu ar gael, e.e. i wneud prentisiaeth uwch neu radd-brentisiaeth. Yn rhy aml o lawr, nid yw dysgwyr yn ymwybodol o'r rolau a'r cyfleoedd sydd ar gael yn y diwydiant adeiladu. Nid yw safle'r diwydiant na gwaith i farchnata gyrfa yn y diwydiant fel un lewyrchus yn cael eu hamlygu'n briodol yn y sector addysg. Mae hyn yn arbennig o amlwg ymhlith grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol a chyflawnwyr uchel.
- Mae'r system cynllunio a chaniatáu'n dal i fod yn feichus ac yn un heb ddigon o adnoddau, ac nid oes fawr o gynnydd yn cael ei wneud i alinio Cynlluniau Datblygu Strategol â Bargeinion Dinesig a Thwf. Mae hyn yn effeithio ar benderfyniadau i fuddsoddi yn y tymor hwy, er gwaethaf y gefnogaeth eang i'r egwyddor o gael system 'wedi'i harwain gan gynlluniau'. Mae busnesau bach a chanolig yn arbennig yn cael eu digalonni gan gymhlethdod y broses cynllunio a'r costau sy'n gysylltiedig â hi.
- Mae gweithwyr mwynau'n dal i boeni ynghylch cael y caniatâd cynllunio angenrheidiol i gefnogi cynlluniau Llywodraeth Cymru, ac maent yn wynebu'r un problemau a'r oedi sy'n cael eu hachosi gan system cynllunio a chaniatáu nad yw'n cael ei chyllido ddigon. Mae'n rhaid i Weinidogion a chynllunwyr y Llywodraeth gydnabod pwysigrwydd mwynau. Yn rhy aml o lawer, mae prosiectau seilwaith mawr yn cael eu hyrwyddo heb unrhyw ystyriaeth i leoliad mwynau a'r mwynau sydd ar gael, sy'n dylanwadu ar symudiadau cerbydau ac effeithiau carbon. Ni ddylid cymryd y bydd cyflenwadau o ddeunyddiau ar gael – mae angen cynllunio'r rhain er mwyn bod yn gosteffeithiol a chyflawni'n gynaliadwy.
- Mae arferion talu gwael yn dal i fod yn gyffredin yn y diwydiant adeiladu, ac mae'r rhain yn dal i gael effaith fawr ar allu'r diwydiant i fuddsoddi, tyfu a sicrhau mwy o werth. Mae'r arferion gwael hyn yn cael effaith anghymesur ar fusnesau bach a chanolig. Enghraifft eithafol o oblygiadau arferion talu gwael yw methiant Dawnus, cwmni a gofrestrwyd yng Nghymru, yn 2019 a'i ddyled o £40 miliwn i fusnesau bach a chanolig. O ystyried y pandemig presennol, mae hyn yn profi y dylai unrhyw lywodraeth newydd flaenoriaethu llif arian busnesau bach a chanolig.
- Yn olaf, nid yw mesurau penodol i ddatgarboneiddio adeiladau a seilwaith yn y dyfodol wedi'u gwneud yn glir i'r diwydiant eto, ond mae cyhoeddiadau diweddar ynghylch cymelliadau i ôl-osod adeiladau presennol yn dangos yr hyn y gellir ei gyflawni. Mae angen dilyn y trywydd hwn yn fwy eang drwy'r diwydiant er mwyn rhoi'r hyder i fusnesau fuddsoddi.

Mae cwestiynau allweddol Actuate UK am unrhyw Lywodraeth Cymru yn y dyfodol yn seiliedig ar 6-flaenoriaeth WCFA:

Blaenoriaeth	Portffolio	Prif ofynion
Llif gwaith	Economi	<ul style="list-style-type: none"> Pennu gweledigaeth deng mlynedd glir ar gyfer y diwydiant adeiladu yng Nghymru, gan gynnwys targedau (fel Cyngor Arwain y Diwydiant Adeiladu a CFS) Diwygio ac egluro Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru Gwella dulliau cyfathrebu yn Llywodraeth Cymru er mwyn sicrhau bod negeseuon yn glir ac yn ystyrlon Ymgorffori, gwella a darparu adnoddau gwell ar gyfer y Fforwm Adeiladu sydd newydd gael ei ffurfio Buddsoddi'n fwy yn seilwaith y sector cyhoeddus Cynnwys cynlluniau buddsoddi pob corff yn y sector cyhoeddus mewn Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru gwell er mwyn cynnig rhaglen waith tair i bum mlynedd, cynigion cyllido a sicrwydd
Sgiliau	Economi/ Addysg	<ul style="list-style-type: none"> Sicrhau bod y cwricwlwm a chyngor ar yrfaedd yn cyfeirio'r ffordd at addysg alwedigaethol a gyrfaedd yn y diwydiant adeiladu Cyllido addysg alwedigaethol ym maes adeiladu'n fwy Asesu cyfraddau gadael, o gyfraddau gadael cyrsiau addysg bellach ym maes adeiladu i gyfraddau gadael swyddi yn y diwydiant adeiladu, a rhoi sylw iddynt wedi hynny Cefnogi'r gwaith o ehangu profiad gwaith fel rhan o gyrsiau addysg bellach llawn amser Sicrhau bod y gwaith o gyflwyno cymwysterau newydd ym maes adeiladu'n llwyddiant Gwella amrywiaeth y llwybrau sydd ar gael i ddysgwyr yng Nghymru, gan gynnwys llwybrau i wneud prentisiaeth uwch a gradd-brentisiaeth Datblygu ymagwedd glir at rannu prentisiaeth Helpu prentisiaid presennol i orffen eu prentisiaethau ac osgoi, hyd yr eithaf, ostyngiad yn nifer y prentisiaid ar ôl pandemig COVID-19
Caffael	Cyllid	<ul style="list-style-type: none"> Canolbwyntio ar werth, nid cost, wrth fuddsoddi drwy'r sector cyhoeddus Cynnwys effeithiau carbon Llunio canllawiau statudol ar fudd i'r gymuned a sicrhau bod y buddion yn cael eu sicrhau, e.e. gorfodi a chadw cyllid yn ôl
Taliad	Cyllid	<ul style="list-style-type: none"> Sicrhau taliad teg ar draws cadwyni cyflenwi a rhoi gwybod a yw contractau'r sector cyhoeddus yn cael eu cyflawni Sicrhau bod symiau dargadw'n cael eu cadw mewn cynllun blaendal annibynnol Monitro defnydd o Gyfrifon Banc Prosiect a'u heffaith ar gontractau adeiladu
Cynllunio	Tai	<ul style="list-style-type: none"> Sicrhau bod gan adrannau cynllunio adnoddau priodol Sicrhau bod Cynlluniau Datblygu Strategol a Chynlluniau Datblygu Lleol ar gael cyn gynted â phosibl er mwyn ei gwneud yn bosibl rhoi system gyfredol wedi'i harwain gan gynlluniau ar waith yng Nghymru Sicrhau bod y broses gynllunio'n cefnogi, yn rheoli ac yn annog gwaith datblygu priodol ledled Cymru mewn ffordd amserol

		<p>heb rwystro buddsoddiad</p> <ul style="list-style-type: none"> • Adolygu'r broses gynllunio er mwyn sicrhau ei bod yn annog datblygwyr busnesau bach a chanolig ac yn gymesur â busnesau o'r fath
Datgarboneiddio (sero net)	Amgylchedd/Tai	<ul style="list-style-type: none"> • Buddsoddi'n fwy mewn datgarboneiddio seilwaith a thai presennol • Cyflwyno mesurau sy'n ceisio annog perchenogion eiddo i ôl-osod eu cartrefi neu eu hadeiladau • Helpu'r diwydiant i ddatgarboneiddio gweithrediadau drwy ddefnyddio ymchwil CITB i sero net • Cyfleu cynlluniau clir ar gyfer cyflwyno rheoliadau adeiladu newydd • Cyflwyno meini prawf costio oes gyfan, gan gynnwys meini prawf carbon corfforedig, ar gyfer cyfiawnhau pob buddsoddiad

Rydym yn credu, drwy fodloni'r prif ofynion hyn, y bydd y diwydiant adeiladu yng Nghymru mewn sefyllfa well i allu cyfrannu at anghenion Cymru yn y dyfodol drwy wneud y canlynol:

- adeiladu seilwaith a thai gwell
- cefnogi twf economaidd drwy swyddi
- sicrhau mwy o werth cymdeithasol
- lleihau allyriadau
- lleihau tlodi tanwydd
- cefnogi'r economi sylfaenol
- cefnogi'r economi gylchol
- sicrhau mwy o werth am arian – lleihau cost cyflawni